# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 2 MAWRTH, 2021

## CYNHALIWYD Y CYFARFOD DROS ZOOM

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol** | Cyng. Mark Davies (cadeirydd ) | Cyng. Owenna Davies |
| | Cyng. Emyr Jones | Cyng. Ceri Jones |
| | Cyng. Sharon Thomas | Cyng. Maldwyn Lewis |
| | Cyng. Julie Davies | Cyng. Teifi Evans |

**Ymddiheuriadau** Cyng. Evan John Jones, Cyng. Llŷr Evans, Cyng. Roger Davies.

**Clerc** Margaret Jones

| **Eitem ar yr Agenda** | | **Gweithredu** | **Gan bwy** | **Erbyn pryd** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ymddiheuriadau | Cafwyd ymddiheuriadau gan Gyng Evan John Jones, Cyng Roger Davies a Chyng. Llŷr Evans. | | |
| 2 | Datgelu Buddiannau | Datgelwyd budd gan Gyng. Owenna Davies mewn gohebiaeth a gafwyd gan 'Gymdeithas Plant y Bryn – Atgofion Ysgol Coed-y-bryn'. | | |
| 3 | Cofnodion cyfarfod mis Chwefror | Roedd pob Cynghorydd wedi cael copi o gofnodion cyfarfod mis Chwefror.<br><br>**<u>Materion yn Codi</u>** – Cadarnhaodd y Clerc ei bod hi wedi dod o hyd i gyfeirnod y cais cynllunio ar gyfer Fferm Mock bellach, a bod hwn wedi cael ei gynnwys yn y cofnodion. Y rhodd i Gyngor ar Bopeth fydd £200 ac roedd hwn wedi cael ei gynnwys yn y cofnodion hefyd. | | |
| 4. | Cadarnhau Cofnodion | Cynigiodd Cyng. Emyr Jones bod cofnodion mis Chwefror yn gywir, eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Owenna Davies a chytunodd pawb a oedd yn bresennol. | | |
| 5. | Adroddiad y Cynghorydd Sir | O ganlyniad i'r glaw trwm a gafwyd fis diwethaf, adroddodd Cyng. Maldwyn Lewis bod yr ardal hon wedi bod yn ffodus iawn, ac nas adroddwyd am unrhyw lifogydd.<br>Mae Partneriaeth Sgiliau Canolbarth Cymru yn cael ei datblygu yng Ngheredigion ac mae pwyllgor lleol Ceredigion yn chwilio am Gadeirydd ar gyfer y Sir.<br>Atgoffodd pawb hefyd o'r ffaith y cynhelir y Cyfrifiad a'r Etholiad cyn bo hir, ac atgoffodd pawb bod cymorth ar gael i lenwi ffurflen y Cyfrifiad. | | |
| 6. | Gohebiaeth | Roedd **Un Llais Cymru** wedi anfon gwahoddiad i'r Cyngor Cymuned enwebu aelod i fod yn gynrychiolydd yng Nghyfarfod lleol Ceredigion a gynhelir ar 17.03.2021 am 7.00 p.m. Cytunwyd y byddai'n syniad da pe bai Cyngor Cymuned Troedyraur yn cael ei gynrychioli yn y cyfarfod hwn, a chytunodd Cyng. Owenna Davies ein cynrychioli. Anfonir manylion cyswllt Cyng. Owenna ymlaen cyn 10 Mawrth. | **Clerc** | |
| | | Roedd **Gofal Galar Cruse** wedi anfon llythyr ymlaen yn gofyn am gymorth ariannol. Trafodwyd hyn a chynigiodd Cyng. Owenna Davies | | |

y dylid rhoi £200. Eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Julie Davies ac roedd pawb a oedd yn bresennol wedi cytuno gan bod y gwaith y maent yn ei gynnig yn y gymuned yn bwysig iawn, yn enwedig yn ystod y pandemig. Anfonir siec ymlaen cyn gynted ag y bo modd.
**Clerc**

**Cofrestrfa Tir E.M.** – Byddai modd llenwi arolwg dienw ar-lein ynghylch perchnogaeth parseli tir yn ardal y cyngor cymuned.

**Un Llais Cymru** – ‘Cod Ymddygiad’ – dylai pob Cynghorydd ddarllen y ddogfen hon a gellir diweddaru polisïau a'r cyfansoddiad yn ôl yr angen.

**Panel Annibynnol Cymru** – anfonwyd arolwg ymlaen er mwyn sefydlu panel cynghori ynghylch talu Cynghorwyr.

**Yswiriant BHIP** – roedd porth hunanwasanaeth wedi cael ei drefnu bellach er mwyn galluogi Cynghorau i lawrlwytho polisïau. Caiff y polisi ei lawrlwytho a'i anfon ymlaen at yr holl Gynghorwyr. **Clerc**

**Un Llais Cymru** – mae cwrs ar gael ynghylch 'Sgwrs Adeiladol'.

**Atal Tipio Anghyfreithlon** – anfonir y ddolen ymlaen at yr holl Gynghorwyr.
**Clerc**

**Troseddau Seiber** – anfonwyd hwn ymlaen at yr holl Gynghorwyr a chytunodd pawb ei fod yn mynd yn fwy cyffredin a bod y twyllwyr yn glyfar iawn. Anfonir ffeil PDF ymlaen i'r wefan ac i dudalen Ffostrasol.
**Clerc**

**Un Llais Cymru** – cynhelir darlith ar 04.03.2021 ynghylch perchnogaeth ail gartrefi yn yr ardal ac er mwyn trafod polisïau newydd i Gymru.

**Mesurau Gostegu Traffig ar gyfer Rhydlewis** – Roedd y Clerc wedi cael nifer o lythyrau yn dilyn y ddamwain ddiweddaraf a fu yn y pentref, a oedd wedi peri difrod sylweddol i eiddo ger y bont. Mynegwyd pryder gan breswylwyr am gyflymdra cerbydau wrth iddynt agosáu at y bont o'r ddau gyfeiriad. Nododd Cyng. Maldwyn Lewis y caiff terfynau cyflymder mewn pentrefi eu hadolygu nesaf yn 2023, ac y gallai hyn olygu y byddai'r terfyn cyflymder yn y pentref yn gostwng o 30 milltir yr awr i 20 milltir yr awr. Cynhaliwyd cyfarfodydd amrywiol eisoes ar/gerllaw y bont a gwnaethpwyd awgrymiadau i'r Cyngor Sir yn flaenorol ynghylch gosod rampiau cyflymder yno, ond nid yw'r adran Briffyrdd yn hapus i'w gosod. Cynigiodd Cyng. Maldwyn Lewis y dylid anfon llythyr ymlaen fel cyngor plwyf at Gyng. Tîm Jendalf yn ogystal â Phrif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion yn lleisio ein pryderon am y ddamwain ddiweddaraf, a hefyd, anfon copïau ymlaen o'r holl lythyrau a gafwyd gan breswylwyr y pentref, ac roedd pawb yn cytuno gyda'r cynnig hwn.

**Cymdeithas Plant y Bryn – Atgofion Ysgol Coed-y-bryn** – Cafwyd llythyr gan ‘Gymdeithas Plant y Bryn’ yn gofyn am gymorth ariannol i gyhoeddi llyfr coffa am ysgol Coed-y-bryn. Roedd Cyng. Owenna

Davies wedi datgelu budd mewn perthynas â'r mater hwn a gadawodd y cyfarfod wrth i'r aelodau ei drafod. Cyhoeddwyd llyfrau tebyg yn yr ardal ac awgrymwyd y dylid rhoi'r un swm i Goed-y-bryn ag y rhoddwyd i Ysgol Capel Cynon, ond o ystyried y ffaith bod 5 mlynedd wedi mynd heibio ers y cyhoeddwyd hwnnw, cynigiodd Cyng. Teifi Evans y dylid rhoi £1,000. Eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng. Julie Davies ac roedd yr holl Gynghorwyr yn cytuno. Anfonir siec ymlaen cyn gynted ag y bo modd. **Clerc**

7. Cynllunio

Cafwyd tri chais cynllunio.

**A210087 – Maesffynnon, Brongest** – bloc stablau newydd. Rhannodd y cadeirydd y dogfennau ar y sgrin er mwyn i bawb eu gweld a gwneud sylwadau amdanynt. Roedd yr holl Gynghorwyr a oedd yn bresennol yn cytuno gyda'r cais a'r sylwadau a adroddir ac a gyflwynir yw – adfer hen adeilad a byddai hyn yn gwella edrychiad yr adeilad yng nghefn gwlad Cymru.

**A210058 – Bryngernos, Bwlch-y-groes** – cynllunio ar gyfer bloc stablau a chartref. Unwaith eto, trafodwyd hwn a rhannwyd y dogfennau ar y sgrin. Roedd pob Cynghorydd yn cytuno gyda'r cais hwn ac unwaith eto, roeddent o'r farn y byddai'r adeilad yn gwella cefn gwlad Cymru.

**A210128 – Lleiniau 5 a 6 gyferbyn ag Ardwyn, Croes-lan** – 2 dŷ newydd i'w hadeiladu – un ohonynt yn dŷ fforddiadwy a'r llall yn dŷ pris llawn. Unwaith eto, rhannwyd y dogfennau ar gyfer hwn ar y sgrin ac roedd pob Cynghorydd yn cytuno gyda'r cais hwn, yn enwedig o ystyried y ffaith y byddai un ohonynt yn dŷ fforddiadwy ac roedd gan un pâr lleol ddiddordeb ynddo, ac roedd gan deulu lleol ifanc proffesiynol ddiddordeb yn y tŷ pris llawn hefyd.

8. Ariannol

Taliadau:-
Rhodd C.A.B. £200
Trwydded Zoom £143.88
CThEM £42.40
Ashmole £156.00/£78
Cyflog y Clerc £170.00
Llinos Jones £169.80
Rhodd i Urdd Gobaith Cymru £200

Penderfynwyd trosglwyddo £5,000 o'r Cyfrif Busnes Wrth Gefn i'r Cyfrif Cyfredol. Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd Cyng Owenna Davies yn fodlon mynd â llythyr i mewn i gangen NatWest yng Nghaerfyrddin i awdurdodi'r trafodiad hwn. Bydd y Clerc yn paratoi llythyr fel y gwnaethpwyd yn flaenorol, a bydd Cyng. Maldwyn Lewis a Chyng. Owenna Davies yn llofnodi'r llythyr.

Adroddodd y Clerc bod 2 dudalen o'r datganiadau banc ar goll o'r ffeil, sef rhifau 383 a 384. Anfonwyd llythyr ymlaen at y banc yn gofyn am gopïau, ond ni chafwyd unrhyw beth erbyn dyddiad y cyfarfod hwn.

9. Materion Ardal

**Diffibrilwyr**. Yn dilyn gohebiaeth a gafwyd gan CymruHearts.org ynghylch grant o £200 sydd ar gael i brynu Diffibrilwyr, archwiliwyd y rhai presennol yn ardal Cyngor y Plwyf ac ar ôl cynnal prawf, darganfuwyd nad oedd rhai ohonynt yn gweithio'n iawn. Roedd yr un

a leolir yn Ffostrasol yn dangos 'X' ar ôl cynnal y prawf. Roedd yr un yng Nghroes-lan yn gweithio ac roedd yn dangos tic yn y bocs ar ôl ei lanhau. Roedd un Brongest yn sych ac yn gweithio. Roedd y rhai yng Nghoed-y-bryn ac ym Maesllyn yn gweithio hefyd ac roedd tic wedi ymddangos yn eu bocsys. Fodd bynnag, oherwydd y sefyllfa bresennol oherwydd Covid ac amseroedd ymateb ambiwlansys, roedd pawb yn cytuno y dylai rhywun proffesiynol archwilio'r holl ddiffibrilwyr yn y plwyf. Bu Mr. J. Evans yn ymwneud â'r gwaith o osod y diffibrilwyr yn yr ardal yn y lle cyntaf, felly penderfynwyd cysylltu ag ef a gofyn am ei gyngor ac am wasanaeth archwilio. Roedd gan y Clerc gyfeiriad e-bost Mr. J. Evans, felly cytunwyd y dylid anfon e-bost ato yn gofyn am ei gymorth a'i gyngor. Tynnwyd sylw at leoliad y Diffibriliwr yn Neuadd Rhydlewis hefyd, gan nad yw wedi cael ei leoli ger prif ddrws y neuadd, felly nid yw mewn man amlwg. Bydd Mr. Ceri Jones yn gofyn am ganiatâd Pwyllgor y Neuadd i symud y diffibriliwr fel ei fod gerllaw'r prif ddrws, lle y mae'r golau gymaint yn well hefyd. O ran y grant o £200, trafodwyd hyn a'r cam o osod diffibriliwr yn ardal Bwlch-y-groes, ar wal Festri y Capel o bosibl, ar ôl sicrhau caniatâd y Capel. Gan mai dim ond gan Cymruhearts.org y cawsom bris am ddiffibriliwr, penderfynwyd gofyn iddynt am rif y model ac ati, er mwyn gallu cymharu prisiau cyn bwrw ymlaen gyda hyn. **Clerc**

**Coed-y-bryn** – roedd y fainc bren ger Y Porthdy mewn cyflwr gwael a chynigiodd Cyng. Julie Davies bod ei gŵr, Neil, yn fodlon trwsio'r fainc. Diolchodd yr holl Gynghorwyr iddi am ei gynnig a gofynnwyd iddi gyfleu ein diolch iddo.

Unwaith eto, gwelwyd pentwr o sbwriel yn y pentref ar 2.3.21 – mae gofyn cadw llygad ar y sefyllfa.

**Rhydlewis** – adroddodd Cyng. Ceri Jones nad yw'r lamp stryd ger yr eiddo a elwir Glyn Arwel yn gweithio. Bydd Cyng. Ceri Jones yn cofnodi rhif SL y lamp ac yn ei anfon ymlaen i'r Clerc, er mwyn gallu adrodd am hyn ar wefan CLIC Ceredigion (SL67 1884)

**Clerc**

**Ffostrasol** – gofynnodd Cyng. Owenna Davies a oedd unrhyw un wedi clywed unrhyw beth am y siop yn Ffostrasol. Dim byw i'w adrodd.

| | | |
|---|---|---|
| 10. | Diweddariad am yr archwiliad | Roedd y Clerc wedi anfon llythyr yn gofyn am ddiweddariad, ond ni chafwyd ymateb. Bydd y clerc yn ffonio i wneud yn siŵr eu bod wedi cael y llythyr. **Clerc** |
| 11. | Cyfarfod Nesaf | Cynhelir y cyfarfod nesaf ar NOS FAWRTH, 6 EBRILL 2021 am 7.30 p.m., unwaith eto dros Zoom.<br><br>Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod, caewyd y cyfarfod gan y Cadeirydd am 9.35 p.m. |
| 12. | Eitemau ar gyfer y | Ymddiheuriadau<br>Datgelu Buddiannau |

| | |
|---|---|
| Cyfarfod Nesaf | Cofnodion y cyfarfod blaenorol/Materion yn Codi<br>Cadarnhau Cofnodion<br>Adroddiad y Cynghorydd Sir<br>Gohebiaeth<br>Cynllunio<br>Cyllid – Archwiliad<br>Taliadau<br>Materion Ardal<br>Dyddiad y cyfarfod nesaf |